# Adran Mathemateg

# Llawlyfr Myfyrwyr

# Rhaglenni Israddedig

# 2023/24



**Cynnwys**


Croeso ..... 5

Adran A: Cyflwyniad ..... 6

Diben y llawlyfr ..... 6

Cydraddoldeb ac Amrywioldeb ..... 7

Dyddiadau Pwysig ..... 7

Adran B: Gwybodaeth am yr Adran ..... 8

Cyfathrebu rhwng y Brifysgol a myfyrwyr ..... 8

Presenoldeb a Chynnydd Academaidd ..... 8

Cwrdd â’r staff ..... 9

Tiwtoriaid Personol ..... 10

Coleg Cymraeg Cenedlaethol ..... 10

Astudio drwy Gyfrwng y Gymraeg ..... 10

Cyflwyno Asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ..... 11

Cyflogadwyedd ..... 13

Cyfleoedd i Astudio neu i Weithio Dramor ..... 14

Eich Llais: Casglu Adborth Myfyrwyr ..... 16

Holiaduron Gwerthuso Modiwl ..... 16

Dy Lais ar Waith ..... 17

Pwyllgor Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr ..... 17

Adran C: Cofrestru a’ch Rhaglen ..... 18

Cofrestru ..... 18

Cyfrifoldebau Fisâu Myfyrwyr ..... 19

Strwythurau Cynlluniau a Manylebau Rhaglenni ..... 19

Gwybodaeth ynghylch modiwlau ..... 20

Amserlen Academaidd ..... 21

Adran D: Asesu ac Adborth ..... 21

Blackboard / Adnoddau E-Ddysgu ... 21
Dulliau Asesu ... 21
Cyflwyno Gwaith Cwrs a Dyddiadau Cau ... 22
Absenoldeb o Arholiadau ... 23
Ceisiadau am Estyniad ... 23
Amgylchiadau Arbennig ... 23
Trefniadau Marcio a Chymedroli ... 24
Meini Prawf Marcio ... 24
Adborth ... 30
Arholwyr Allanol ... 31
Ymddygiad Academaidd Annerbyniol ... 32
Ymarfer academaidd a chymorth astudio ... 34
Llyfrgelloedd ... 34
Cymorth pwnc ... 35
Canllawiau astudio a hyfforddiant sgiliau ... 35
Sgiliau ar gyfer Dysgu ... 36
Sgiliau Digidol ... 36
Y Ganolfan Saesneg Ryngwladol ... 37
Adran E: Rheolau Cynnydd a Chonfensiynau Arholiadau ... 38
Rheolau Cynnydd a Chonfensiynau Arholiadau ... 38
Beth i'w wneud os aiff pethau o chwith ... 38
Ailsefyll ... 38
Trefn Apeliadau Academaidd i Israddedigion ac Uwchraddedigion a Ddysgir trwy Gwrs ... 39
Y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr ... 40
Adran F: Cymorth Myfyrwyr a Gwasanaethau Lles ... 40
Canolfan Croesawu Myfyrwyr ... 40

Y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian ........ 41
Y Gwasanaeth Hygyrchedd ........ 41
Gwasanaethau Lles Myfyrwyr ........ 42
Y Swyddfa Denu Myfyrwyr a Datblygu Rhyngwladol ........ 42
Cyngor ar Fisas a Mewnfudo ........ 43
Wythnos Un Byd ........ 43
Darpariaeth Halal ........ 43
Mannau aml-ffydd ac ystafell weddïo ........ 43
Gwasanaeth Cyngor Undeb y Myfyrwyr ........ 43
Cymorth Llety ........ 44
Cynorthwywyr Preswyl ........ 44
Adran G: Gwybodaeth y Brifysgol ........ 45

**Ymwadiad**

Dylid darllen y llawlyfr hwn ar y cyd â'r  Llawlyfr Ansawdd Academaidd (Rhan A: Polisïau a Gweithdrefnau a Rhan B: Rheoliadau ) https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook. Rhoddir blaenoriaeth i'r cyhoeddiadau hyn ymhob achos, ac nid oes unrhyw ran o'r llawlyfr hwn yn eu disodli. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod cynnwys y llawlyfr hwn yn gywir ac yn gyfredol. Er hynny, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i addasu neu ddiweddaru'r llawlyfr yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newidiadau, ond mewn achos o'r fath fe gewch wybod amdanynt gan eich adran academaidd.

## Croeso




Croeso i’r Adran Fathemateg Aberystwyth. Mae 'Mathemateg ger y Lli' yn cael ei ddysgu yma yn byth ers i'r Brifysgol agor ei drysau. Yn wir, Aberystwyth oedd y Brifysgol gyntaf i ddysgu Mathemateg yng Nghymru. Wrth gwrs, mae'r dulliau dysgu wedi newid ers i'r Athro Mathemateg cyntaf, Horatio Nelson Grimley, groesawu ei fyfyrwyr yn 1872, ond er hynny rydym yn dal i anelu at ddarparu addysg o'r ansawdd orau mewn amgylchedd cyfeillgar a chefnogol.

Mae arolygon myfyrwyr yn aml yn pwysleisio pa mor gymwynasgar a hawdd siarad â nhw yw staff Mathemateg yn Aberystwyth; un o'r elfennau o waith dysgu sy'n rhoi'r boddhad mwyaf yw gweld myfyrwyr yn dysgu a gwella. Mae'r staff yn eu gweld eu hunan mewn partneriaeth â'r myfyrwyr wrth ymdrechu i gyflawni eu potensial llawn. Mae'r myfyrwyr sy'n rhoi amser ac ymdrech i'w hastudiaethau yn aml yn mwynhau mathemateg yn fwy, ac yn cael eu hysbrydoli i wneud mwy. Ymdrechu i ddatrys problemau mathemategol yw'r ffordd orau o wella, fel rheol.

Mae arbenigedd ymchwil ein staff yn cwmpasu ystod eang o fathemateg, gan gynnwys algebrâu gweithredyddion, mecaneg solidau a hylifau, a strwythurau, gwybodaeth a rheolaeth gwantwm. Mae llawer iawn o waith ymchwil yn digwydd ar draws disgyblaethau, yn cynnwys cydweithwyr ym meysydd ffiseg, cyfrifiadureg a pheirianneg, yn ogystal â phartneriaid diwydiannol. Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014, cafodd pob un o'n darnau ymchwil eu barnu ar safon cydnabyddiaeth ryngwladol, gydag un ym mhob wyth o'n cynnyrch ymchwil ar safon sy'n arwain y byd.

Rwy'n siŵr y byddwch chi, fel miloedd o bobl o'ch blaen, yn cael rhai o ddiwrnodau hapusaf eich bywyd yma yn Aberystwyth.



Yr Athro Simon Cox

Pennaeth Adran Mathemateg

# Adran A: Cyflwyniad

## Diben y llawlyfr

Diben y llawlyfr hwn yw rhoi gwybodaeth allweddol i chi am eich astudiaethau, ac am bolisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol. Nid canllaw cynhwysfawr mohono, ond bydd yn rhoi rhywfaint o'r wybodaeth hanfodol y bydd ei hangen arnoch i gael gyrfa academaidd lwyddiannus a difyr yma ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae rhagor o wybodaeth i gyd-fynd â'r llawlyfr hwn ar gael ar wefan y Brifysgol: https://www.aber.ac.uk/cy/student/.

Mae ein Siarter Myfyrwyr yn amlinellu ein cyd-gyfrifoldebau a'n dyheadau.  Mae ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/student/charter/ .

Cyhoeddir llawlyfr newydd i'r myfyrwyr bob blwyddyn academaidd sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi. Os hoffech wneud sylwadau am gynnwys y llawlyfr, neu ynglŷn â sut i wella'r wybodaeth a ddarperir, mae croeso i chi eu hanfon drwy ebost i'ch adran academaidd. Defnyddir y term cyffredinol 'adran academaidd' trwy gydol y llawlyfr hwn, ond mae'n bosibl y bydd 'adran', 'athrofa' neu 'ysgol' yn cael ei ddefnyddio fel teitl ffurfiol ar gyfer adran.

Mae croeso i chi hefyd ddod i Swyddfa Gyffredinol Adran Fathemateg, sydd i'w chael yn ystafell MP-2.47 ar ail lawr yr Adeilad Mathemateg a Ffiseg, neu fe gewch anfon ebost i email maths@aber.ac.uk, os hoffech gael mwy o wybodaeth neu os oes gennych *unrhyw* ymholiadau ynghylch unrhyw fater adrannol yn y llawlyfr.

Dylai myfyrwyr gofio y bydd Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol mewn grym bob amser, boed yn ystod y tymor neu yn ystod y gwyliau: https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/handbook/regulations/

Dylai myfyrwyr gofio y bydd Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol mewn grym bob amser, boed yn ystod y tymor neu yn ystod y gwyliau: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/

## Cydraddoldeb ac Amrywioldeb

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i ddatblygu a hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb ym mhob agwedd ar ein hymarfer a'n gweithgareddau. Ein nod yw gweithio, astudio, a darparu diwylliant cynhwysol heb wahaniaethu, ac arddel gwerthoedd parch, urddas a chwrteisi. Mae gan bawb yr hawl i gael eu trin yn unol â'r gwerthoedd hyn.

Rydym yn ymroddedig i hybu cydraddoldeb ar sail oedran, anabledd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, hil, hunaniaeth ryweddol, crefydd a chred (gan gynnwys anghrediniaeth), priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, ac i groesawu aml-hunaniaeth a chodi ymwybyddiaeth ar draws gwahanol grwpiau.

Mae’r Cod Urddas a Pharch y Myfyrwyr yn cael ei gyhoeddi ar y we, ac mae'n cynnwys dolen i dudalennau Adrodd a Chymorth y Brifysgol lle mae gan unigolion yr opsiwn i gyflwyno adroddiad neu bryder dienw neu drydydd parti. Dylid defnyddio'r cod hwn i ymdrin ag unrhyw honiadau o fwlio, aflonyddu neu ymddygiad arall sy’n groes i urddas a pharch a gyflawnir gan fyfyrwyr boed ar y campws ai peidio neu p'un ai ar weithgareddau cysylltiedig â'r Brifysgol ai peidio.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb 2020 -2024 yn hyrwyddo cydraddoldeb a gwelliannau cydraddoldeb o fewn y Brifysgol yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y cynllun yn cael ei fesur trwy Adroddiadau Cynnydd a byddant ar gael yn ein adroddiadau monitro blynyddol.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024 (a’r Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb sy’n perthyn iddo) ar gael yn adran Cynlluniau ein tudalennau gwe Cydraddoldeb: https://www.aber.ac.uk/cy/equality

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, y cyfeiriad ebost yw equstaff@aber.ac.uk

## Dyddiadau Pwysig

Gellir dod o hyd i ddyddiadau tymor y Brifysgol, gan gynnwys semestrau, cynefino, cofrestru ac ymgartrefu, gwyliau, arholiadau ac wythnosau adolygu (os yw'n briodol) yma: https://www.aber.ac.uk/en/dates-of-term/.

Dylid darllen dyddiadau'r tymor ar y cyd â gofynion preswyl y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr amser-llawn fel y nodir yn adran 3.1 o’r Rheolau a Rheoliadau i Fyfyrwyr (https://www.aber.ac.uk/en/academic-registry/handbook/regulations/student-rules-regs/).

# Adran B: Gwybodaeth am yr Adran

## Cyfathrebu rhwng y Brifysgol a myfyrwyr

Mae’r cyfathrebu swyddogol rhwng y Brifysgol a’r myfyrwyr yn digwydd drwy ebost Prifysgol Aberystwyth. Os nad ydych eto wedi rhoi eich cyfrif myfyriwr ar waith, gwnewch hynny nawr drwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar-lein: https://myaccount.aber.ac.uk/open/activate/.

Dylid gwirio e-bost yn rheolaidd, o leiaf unwaith y dydd.

Yn aml bydd gwaith cwrs sydd wedi'i farcio yn cael ei ddychwelyd drwy gloerau'r myfyrwyr (y 'tyllau colomennod'): maent i'w cael yng nghyntedd llawr 3 yn adeilad Mathemateg a Ffiseg.

Mae'n bosib y bydd rhai llythyrau pwysig yn cael eu hanfon i'ch cyfeiriad lleol neu i'ch cartref. Mae'n bwysig sicrhau bod y cyfeiriadau hynny'n gywir ar eich cofnod myfyriwr, ac mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Brifysgol os ydynt yn newid. Weithiau mae'n bosib y byddwn ni'n anfon gohebiaeth ysgrifenedig atoch i'ch cloer.

## Presenoldeb a Chynnydd Academaidd

Mae’r Brifysgol yn mynnu bod myfyrwyr yn mynychu yr holl weithgareddau ar eu hamserlen, yn cynnwys darlithoedd, seminarau, dosbarthiadau ymarferol a thiwtorialau. Mae’n bosibl hefyd y bydd y Brifysgol neu’r adran academaidd yn pennu gofynion presenoldeb ychwanegol.

Mae’r Brifysgol wedi ymrwymo i fframwaith ar gyfer monitro cynnydd a phresenoldeb myfyrwyr fel rhan o’i chyfrifoldeb i ofalu am fyfyrwyr unigol. Os yw eich presenoldeb a’ch cynnydd yn anfoddhaol, bydd eich adran academaidd yn cysylltu a byddwch yn cael gwahoddiad i egluro’r sefyllfa. Er mai er mwyn estyn cymorth i chi yw’r rheswm dros fonitro cynnydd academaidd, mae’n bosibl y cymerir camau disgyblu mewn

achosion lle nad yw ymdrechion i wella'r sefyllfa wedi arwain at welliant mewn presenoldeb a chynnydd. Mewn achosion o'r fath, gall adrannau academaidd argymell bod myfyrwyr yn cael eu diarddel o'r Brifysgol.

Gweler y Rheoliad Academaidd ynghylch Cynnydd Academaidd yn llawn yn Rhan B y Llawlyfr Ansawdd Academaidd: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/academic-progress/

## Cwrdd â'r staff

Ceir gwybodaeth ynglŷn â staff yr adran, yn cynnwys eu swyddogaethau a'u dyletswyddau ar dudalen we'r adran: https://www.aber.ac.uk/cy/maths/staff-list/

https://www.aber.ac.uk/cy/maths/supporting-you/information-for-current-mathematics-students/support/

| Swydd | Staff | Cyfeirnod ebost |
|---|---|---|
| **Pennaeth yr Adran** | Yr Athro Simon Cox | sxc |
| **Rheolwr y Gyfadran** | Marina Hughes | mgh5 |
| **Cymorth Gweinyddol** | Shelley Fulwood | smi / maths@aber.ac.uk |
| **Derbyn Myfyrwyr** | Dr Gwion Evans | dfe |
| **Cyswllt ag Ysgolion** | Dr Tudur Davies | itd |
| **Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu** | Dr Rob Douglas | rsd |
| **Ôl-raddedigion Ymchwil** | Yr Athro Simon Cox | sxc |
| **Ôl-raddedigion a ddysgir** | Dr Kim Kenobi | kik10 |
| **Blwyddyn 0** | Dr Alex Pitchford | agp1 |
| **Blwyddyn 1** | Dr Jukka Kiukus | jek20 |
| **Blwyddyn 2** | Dr Adil Mughal | aqm |
| **Blwyddyn 3** | Dr Kim Kenobi | kik10 |
| **Blwyddyn 4** | Dr Tudur Davies | itd |
| **Tiwtor Tramor** | Dr Gennady Mishuris | ggm |
| **Pwyllgor Ymgynghorol Staff-Myfyrwyr** | Dr Rob Douglas | rsd |
| **Cyflogadwyedd** | Dr Kim Kenobi | kik10 |
| **Cydlynydd myfyrwyr rhyngwladol/ Erasmus** | Yr Athro Gennady Mishuris | ggm |
| **Cydlynydd y Llyfrgell** | Dr Kim Kenobi | kik10 |

## Tiwtoriaid Personol



Bydd Tiwtor Personol yn cael ei neilltuo i bob myfyriwr israddedig. Mae gan y Tiwtoriaid Personol ran bwysig i'w chwarae yn y fframwaith cyffredinol sy'n cynnal y myfyrwyr a'u datblygiad personol yn y Brifysgol.

Dylai'r Tiwtor Personol fod yn un o'r mannau cyswllt cyntaf rhwng y myfyrwyr a'r adran academaidd, a dylai fod ar gael i gael sgwrs ar adegau rhesymol, a lle y bo'n briodol dylai gyfeirio'r myfyrwyr i gael cyngor arbenigol.

Mae gwybodaeth fwy manwl ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/student-support/

## Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Sefydliad cenedlaethol yw'r Coleg Cymraeg sy'n chwarae rhan allweddol mewn cynllunio, cynnal a datblygu addysg ac ysgolheictod cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion. Mae gan y Coleg ganghennau ymhob un o brifysgolion Cymru lle cynigir darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Yma ym Mhrifysgol Aberystwyth, lleolir y Gangen o dan adain Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg. Cewch ragor o wybodaeth am weithgareddau academaidd a chymdeithasol y Gangen, ynghyd â'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr ddod yn aelodau o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yma: https://www.aber.ac.uk/en/ccc/. I ddod yn aelod o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ewch i https://colegcymraeg.ac.uk/myfyrwyr/prifysgol/eisiau-derbyn-gwybodaeth/. Os gwnaethoch chi ymaelodi yn yr ysgol neu'r coleg, bydd angen i chi ddiweddaru eich aelodaeth i aelodaeth myfyriwr prifysgol drwy lenwi'r ffurflen hon: https://colegcymraeg.ac.uk/ymaelodi-prifysgol/.

## Astudio drwy Gyfrwng y Gymraeg

Mae traddodiad hir o gynnig cefnogaeth academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr Mathemaeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r Adran yn rhoi pwyslais ar

feithrin sgiliau dwyieithog drwy fodiwlau Cymraeg eu cyfrwng yn ein cynlluniau gradd. Nod y ddarpariaeth yw codi hyder y myfyrwyr fel y byddant yn gallu cyflwyno ac ymdrin â Mathemateg yn ddwyieithog, yn unol â'r galw yn y gweithle yng Nghymru. Rhoddir y rhan fwyaf o'r darlithoedd drwy gyfrwng Saesneg, ac ategir y dysgu hwnnw drwy'r Gymraeg mewn sesiynau tiwtora, gweithdai, seminarau adborth a phrofiadau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn diwedd y cwrs gradd dylech deimlo'n hyderus wrth ymdrin â'ch pwnc yn y Gyrmaeg a Saesneg fel ei gilydd.

Mae gan rai darlithwyr Mathemateg ddyletswyddau penodol dros ddysgu a gweithgareddau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg: Dr Tudur Davies (itd) a Dr Gwion Evans (dfe). Mae Gill Davies (mqd) yn rhoi cymorth gweinyddol yn y swyddfa drwy gyfwng y Gymraeg. Mae croeso i chi gysylltu â nhw os ydych am gael mwy o wybodaeth.

Darperir papurau arholiad yn y Gymraeg i'r modiwlau cyfwng Cymraeg, gyda fersiynau Saesneg wedi'u hatodi hefyd. Dim ond papurau Saesneg a ddarperir i aroliadau'r modiwlau eraill, ond caiff myfyrwyr wneud cais i sefyll yr arholiad yn y Gymraeg ac fe fydd papur arholiad Cymraeg yn cael ei ddarparu; ac fe all myfyrwyr gyflwyno eu gwaith cwrs yn y Gymraeg. Os hoffech wneud hyn, dylech ddilyn canllawiau'r Brifysgol a roddir isod, a chyflwyno'r ffurflen briodol erbyn y dyddiadau cau perthnasol.

Mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei chefnogi gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol http://www.colegcymraeg.ac.uk/

## Cyflwyno Asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae gan Brifysgol Aberystwyth bolisi dwyieithrwydd ar gyfer pob asesiad ysgrifenedig, gan gynnwys traethodau gwaith cwrs ac arholiadau. Caiff myfyrwyr, p’un ai Cymraeg neu Saesneg yw prif iaith  asesu’r modiwl dan sylw, ddewis cyflwyno sgriptiau arholiadau ac asesiadau gwaith cwrs naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg (ac eithrio asesiadau lle mae asesu iaith yn rhan o ddeilliannau dysgu’r modiwl). Bydd myfyrwyr sy’n dilyn modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu harholi yn yr iaith honno; mae gan fyfyrwyr sy’n dilyn modiwlau drwy gyfrwng y Saesneg hawl i gael eu hasesu yn Gymraeg.

Mae’r Brifysgol wedi sefydlu polisi ar gyfieithu asesiadau er mwyn sicrhau uniondeb y broses (h.y. na fydd myfyrwyr yn cael mantais nac anfantais annheg o ran marcio gwaith wedi’i gyfieithu. Nid oes disgwyl i fyfyrwyr sydd am gyflwyno sgriptiau arholiadau neu asesiadau gwaith cwrs yn Gymraeg ar fodiwlau cyfrwng Saesneg roi gwybod am hyn i adrannau academaidd ymlaen llaw. Fodd bynnag, er mwyn caniatáu amser i baratoi papurau arholiad Cymraeg ar gyfer modiwlau cyfrwng Saesneg, gofynnir i fyfyrwyr hysbysu **Canolfan Gwasanaethau’r Gymraeg** erbyn y dyddiadau a gyhoeddir gan y Ganolfan ar ddechrau pob semester. Bydd myfyrwyr sydd wedi nodi ar eu cofnod eu bod yn siarad Cymraeg yn cael neges ebost atgoffa gan Ganolfan Gwasanaethau’r Gymraeg.

## Canolfan Gwasanaethau’r Gymraeg

Mae Prifysgol Aberystwyth yn sefydliad dwyieithog lle defnyddir y Gymraeg yn rheolaidd yn ei gweinyddiaeth ac yn ei gweithgareddau academaidd.

Mae Canolfan Gwasanaethau Cymraeg yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cefnogi'r Brifysgol wrth weithredu'n ddwyieithog.

Fel Prifysgol yng Nghymru, mae Prifysgol Aberystwyth yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy’n esbonio sut mae disgwyl i'r Brifysgol ddarparu gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er enghraifft, bydd gohebiaeth gyffredinol â myfyrwyr yn ddwyieithog yn ogystal â deunydd arddangos, ein gwasanaethau ffôn, gwefannau, a gwasanaethau ar-lein. Mae gan fyfyrwyr hefyd yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd gyda'r brifysgol, ac os oes angen bydd 'gwasanaeth cyfieithu ar y pryd' yn cael ei ddarparu i hwyluso hyn.

Wrth astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth mae nifer o fyfyrwyr yn cofrestru ar gyrsiau Dysgu Cymraeg, sy'n rhad ac am ddim i ddysgwyr rhwng 18 a 25 oed.

I gael gwybodaeth am ddysgu Cymraeg, gwasanaethau Cymraeg neu am sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio ym Mhrifysgol Aberystwyth, cysylltwch â canolfangymraeg@aber.ac.uk / https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/

## Cyflogadwyedd

**Posibiliadau Gyrfaol**

Bydd gradd mewn Mathemateg yn eich paratoi at yrfaoedd lle y mae galw mawr am sgiliau rhifyddol arbenigol a medrau meddwl rhesymegol a dadansoddol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio i gwmnïau megis Rolls Royce a sefydliadau megis y Swyddfa Dywydd, ond mae hefyd gyrfaoedd ar agor i chi ym meysydd cyfrifon a bancio, rheoli ariannol, dadansoddi data, technoleg gwybodaeth, ymchwil a darlithio. Mewn arolwg diweddar, roedd 97% o'r myfyrwyr a raddiodd o'n hadran yn 2014/15 wedi cael gwaith neu'n astudio ymhellach chwe mis ar ôl graddio, gyda mwy na 72% o'r rheini mewn swyddi llawn amser.

**Sgiliau Trosglwyddadwy**

Drwy astudio am radd Fathemateg fe fyddwch yn meithrin amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy y mae galw mawr amdanynt ymhlith cyflogwyr, gan gynnwys:

(i) sgiliau ymchwil a dadansoddi data;

(ii) sgiliau mathemategol a chyfrifiannol uwch;

(iii) sgiliau datrys problemau effeithiol a meddwl creadigol;

(iv) sut i leihau problem anodd i strwythur wedi'i wneud o broblemau llai a haws;

(v) sylfaen drylwyr mewn sgiliau technoleg gwybodaeth;

(vi) gallu gweithio'n annibynnol;

(vii) sgiliau rheoli amser a threfnu, ac yn gallu cyflawni gwaith o fewn terfynau amser caeth;

(viii) sgiliau cyflwyno: gallu mynegi syniadau a chyfleu gwybodaeth mewn modd clir a threfnus, yn ysgrifenedig ac ar lafar;

(ix) gallu gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun, ac yn gallu dibynnu arnoch eich hun;

(x) gweithio mewn tîm, ac yn gallu trafod cysyniadau mewn grwpiau, gan dderbyn syniadau gwahanol a dod i gytundeb.

**Y Cynllun Blwyddyn mewn Gwaith**

Mae gan y Brifysgol Gynllun Blwyddyn mewn Gwaith, sy'n cynnig cyfle i chi gymryd blwyddyn allan o'ch astudiaethau rhwng eich ail flwyddyn a'ch trydedd er mwyn gweithio i gorff neu gwmni ym Mhrydain neu dramor. Mae'r Cynllun yn cynnig profiad gwerthfawr sy'n rhoi boddhad, yn bersonol ac yn broffesiynol, ac mae'n gallu eich helpu i sefyll ar wahân i weddill yr ymgeiswyr mewn marchnad swyddi gystadleuol. Bydd Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol (https://www.aber.ac.uk/cy/careers/) yn eich helpu i ystyried eich dewisiadau ac i gael lleoliad gwaith addas.

Morwenna Jeffrey yw'r Ymgynghorydd Gyrfaoedd sy'n gyfrifol am Fathemateg, a'r Dr Yuan Shen yw Swyddog Cyflogadwyedd Mathemateg. Byddant yn darparu manylion am weithgareddau a chyfleoedd gyrfaol.

## Cyfleoedd i Astudio neu i Weithio Dramor

Caiff myfyrwyr gyfle i astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor a cheir rhagor o wybodaeth am y cyfleoedd hyn yma: https://aber.ac.uk/cy/study-with-us/global-opportunities/

Mae'r myfyrwyr sydd am fanteisio ar y cyfle hwn fel rheol yn gwneud hyn yn eu hail flwyddyn, neu ran ohoni; mae'r broses ymgeisio yn digwydd yn y flwyddyn gyntaf. Rhoddir y lleoliadau i fyfyrwyr drwy broses ddethol a gynhelir gan y Brifysgol. Mae'n rhaid i'r myfyrwyr drafod eu cynllun â'r Adran er mwyn sicrhau bod eu maes gwaith arfaethedig ym Mathemateg yn cynnwys yr holl ddeunydd sydd ei angen i'r flwyddyn astudio nesaf yn Aberystwyth. Yr Athro Gennady Mishuris yw'r unigolyn i gysylltu ag ef yn yr adran ynghylch astudio dramor.

**Cynlluniau sy’n cynnwys Blwyddyn Ryng-gwrs integredig**

Gall cynlluniau sy’n cynnwys Blwyddyn Ryng-gwrs integredig gynnwys:

(i) Blwyddyn integredig mewn diwydiant, yn cynnwys cyfnod yn gweithio yn y DU neu dramor

(ii) Blwyddyn integredig yn astudio dramor, yn cynnwys cyfnod yn astudio mewn prifysgol dramor.

Yn ystod y Flwyddyn Ryng-gwrs, disgwylir i fyfyrwyr fod mewn gwaith neu yn astudio dramor am isafswm o 30 wythnos, ynghyd a chydymffurfio â gofynion eich adran academaidd wrth gadw mewn cysylltiad â thiwtoriaid yn ystod y cyfnod hwn. Bydd myfyrwyr sy'n methu gwneud cynnydd academaidd boddhaol yn ystod y Flwyddyn Ryng-gwrs yn derbyn rhybudd a gallant wynebu cael eu diarddel o'r Brifysgol yn unol â'r Rheoliad Academaidd ynghylch Cynnydd Academaidd.

Bydd y Flwyddyn Ryng-gwrs yn cael ei marcio yn unol â'r meini prawf asesu a gyhoeddwyd, a gall Bwrdd Arholi'r Senedd fynnu bod myfyrwyr sy'n methu cyflawni'r canlyniadau dysgu a llwyddo i sicrhau marc o farc o 40% neu fwy neu lwyddo i gwblhau'r flwyddyn yn trosglwyddo i gynllun gradd cytras nad yw'n cynnwys y flwyddyn integredig mewn diwydiant neu'r flwyddyn integredig yn astudio dramor. Noder yn ogystal na chaniateir i fyfyrwyr dreulio cyfnod ar leoliadau cyfnewid yn ystod y flwyddyn cyn y Flwyddyn Ryng-gwrs.

Ceir hyd i reoliadau cysylltiedig â chynlluniau â blwyddyn ryng-gwrs, neu flwyddyn intregredig yn astudio dramor yma: [https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/exam-conventions/](https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/exam-conventions/) - 4.5 Cynlluniau Gradd gyda Blwyddyn Ryng-gwrs, neu gynlluniau nad ydynt yn rhai ieithyddol ond sy'n cynnwys blwyddyn yn

## Eich Llais: Casglu Adborth Myfyrwyr



Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwymo i ddarparu profiad o'r radd flaenaf i'w myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn bartneriaid yn eu dysgu, ac mae'r Brifysgol yn rhoi pwyslais mawr ar eu barn am y rhaglenni academaidd a'r profiad myfyriwr ehangach.

Trwy 'Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif' bydd staff a myfyrwyr yn cydweithio i wneud Aberystwyth yn brifysgol eithriadol. Gallwch sôn am yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda, lle y gallwn wella, a beth sy'n bwysig i chi. Gallwch gymryd rhan trwy gysylltu â swyddogion neu gynrychiolwyr academaidd Undeb y Myfyrwyr, siarad gyda'ch darlithwyr neu staff cymorth, cwblhau'r ffurflen ar-lein 'Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif', neu gwblhau Holiadur Gwerthuso Modiwl. Mae eich adborth yn ein helpu i barhau i gyfoethogi'r profiad myfyriwr.

**Mae'ch Llais Chi'n Cyfrif, felly cysylltwch gyda ni i fynegi eich barn.**

## Holiaduron Gwerthuso Modiwl

Bob semester, bydd gofyn i bob myfyriwr israddedig gwblhau Holiadur Gwerthuso Modiwl ar-lein yn y dosbarth ar gyfer pob modiwl. Mae'r holl adborth o'r Holiaduron yn ddienw a chaiff ei ddefnyddio er mwyn asesu perfformiad y modiwl a gwneud unrhyw newidiadau posibl. Bydd pob cydlynydd modiwl yn ysgrifennu adroddiad yn dadansoddi'r canlyniadau, a byddant yn cael eu darparu i fyfyrwyr trwy drafodaethau wyneb yn wyneb, trwy e-bost ac ar Blackboard.

Gofynnir i chi ddarparu adborth adeiladol ar eich modiwlau, gan gwblhau'r gwerthusiadau modiwl yn onest, gydag ystyriaeth a pharch i'r staff addysgu a'r staff

cymorth ar bob modiwl yn unol â'r Rheolau a Rheoliadau: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/.

Wrth iddynt gyflwyno sylwadau, hysbysir myfyrwyr bod y Brifysgol yn cadw'r hawl i ddileu neu ailolygu sylwadau os ystyrir eu bod yn torri'r Rheolau a'r Rheoliadau.

## Dy Lais ar Waith

Dy Lais ar Waith yw'r broses sy'n caniatáu i fyfyrwyr roi adborth ar unrhyw adeg am unrhyw agwedd o'u profiad yn y Brifysgol. Mae adborth myfyrwyr yn helpu'r Brifysgol i barhau i gyfoethogi'r profiad myfyriwr, trwy ddweud wrthym beth rydyn ni'n ei wneud yn dda, beth y gallwn ei wella a beth sy'n fwyaf pwysig i chi. Gweler https://www.aber.ac.uk/cy/student/your-voice-matters. Unwaith eto, gofynnir i chi roi adborth cadarnhaol gydag ystyriaeth a pharch i staff yn unol â'r Rheolau a'r Rheoliadau.

## Pwyllgor Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr

Mae'r myfyrwyr yn rhan gwbl ganolog o'r dysgu a'r addysgu ac mae sicrhau llais effeithiol i'r myfyrwyr, gyda threfniadau cynrychioli priodol, yn sylfaenol i systemau sicrhau a gwella ansawdd y Brifysgol. Drwy hyn mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cynrychiolaeth effeithiol i'r myfyrwyr ar sawl haen yn strwythur y Brifysgol er mwyn cyfrannu at ei llwyddiant o ran cynnal a chyfoethogi profiad y myfyrwyr.

Mae'r Pwyllgorau Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr yn darparu dull ffurfiol i'r Brifysgol a'r myfyrwyr i drafod materion academaidd sy'n effeithio ar eu hastudiaethau. Maent wedi eu sefydlu yn unol â'r canllawiau cynrychiolaeth myfyrwyr yn adran 6 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd: 'Cymorth Myfyrwyr'. Ceir rhagor o wybodaeth yma: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/student-support/

Ym Mathemateg mae gan y Pwyllgor Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr ddau gynrychiolydd myfyrwyr bob un i'r blynyddoedd 1, 2 a 3, ac un cynrychiolydd bob un i'r blynyddoedd 0 ac M, yn ogystal ag un cynrychiolydd cyfrwng Cymraeg. Mae'r pwyllgor hefyd yn cynnwys un cynrychiolydd uwchraddedigion, cynrychiolydd Cymdeithas Fathemateg, cynrychiolydd y Llyfrgell, Ymgynghorydd Gyrfaoedd, aelod o'r staff gweinyddu, a'r

aelodau o'r staff academaidd sy'n ymwneud yn agosaf â chynnal gweithgareddau dysgu, gan gynnwys y Tiwtoriaid Blwyddyn. Yn draddodiadol fe ddewisir y Cadeirydd o blith cynrychiolwyr y myfyrwyr. Fel rheol mae'r pwyllgor yn cyfarfod ddwywaith y semester. Dangosir y cofnodion ar wefan yr adran, ac mae'r pynciau i'w trafod yn cael eu rhoi yn awtomatig ar agenda cyfarfod Dysgu ac Addysgu nesaf y pwnc. Mae'r awgrymiadau adeiladol a roddir gan y myfyrwyr yn gwella'r modiwlau, yn y tymor byr a'r tymor hwy fel ei gilydd.



# Adran C: Cofrestru a'ch Rhaglen

## Cofrestru

Cyn bod modd i chi fod yn fyfyriwr cofrestredig amser llawn neu ran-amser yn y Brifysgol, mae'n rhaid i chi gofrestru ar ddechrau'r sesiwn. Mae gwybodaeth am gofrestru, yr amserlen gofrestru, a rhestr lawn o ddigwyddiadau ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/new-students/freshers/registration/


Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch Cofrestru Israddedig, cysylltwch â'r Gofrestrfa Academaidd (e-bost: ugfstaff@aber.ac.uk, ffôn: 01970 628515/622787). Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r Gofrestrfa Academaidd os nad ydych yn gallu cofrestru ar amser. **Sylwer: Os na fyddwch yn cwblhau'r cofrestru, ni fyddwch**

**wedi'ch cofrestru fel myfyriwr a bydd eich mynediad i gyfleusterau'r Brifysgol yn cael ei atal.**

## Cyfrifoldebau Fisâu Myfyrwyr

**Gwybodaeth bwysig i fyfyrwyr sydd yn astudio yn y DU sydd â fisa Myfyriwr neu fisa Haen 4.**

Mae Prifysgol Aberystwyth yn 'noddwr' cofrestredig o dan y system Mewnfudo ar Sail Pwyntiau. Mae hynny'n golygu y cawn ddenu a noddi myfyrwyr rhyngwladol.



Mae'r Swyddfa Gartref, o dan y system honno, yn gosod cyfrifoldebau ar fyfyrwyr ac ar eu prifysgol i sicrhau bod y rheolau mewnfudo'n cael eu dilyn.

Fel noddwr cofrestredig, mae'r Brifysgol wedi llunio polisïau a gweithdrefnau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r cyfrifoldebau hyn. Bwriedir i'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn hefyd amddiffyn eich statws mewnfudo.

Er mwyn helpu i osgoi anawsterau posib rydym wedi darparu arweiniad ar y cyfrifoldebau hyn ar y wefan https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/compliance-information/ hon a hefyd yn adran adnoddau'r dudalen Cydymffurfiaeth Fisâu Myfyrwyr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r compliance@aber.ac.uk.

## Strwythurau Cynlluniau a Manylebau Rhaglenni

Ceir dolenni cyswllt â strwythurau'r holl gynlluniau cyfredol yma: https://www.aber.ac.uk/cy/study-schemes/

Ceir dolenni cyswllt â manylebau'r holl raglenni cyfredol yma: https://www.aber.ac.uk/cy/programme-specs/index.html


Bydd eich cynllun gradd yn cynnwys ‘modiwlau craidd’ y bydd yn rhaid i chi eu hastudio, ond gall hefyd gynnwys ‘modiwlau dewisol’. Mae gan rai modiwlau dewisol drothwy isaf o ran cofrestriadau, felly ni allwn eu cynnig os nad oes digon o fyfyrwyr yn cofrestru arnynt. Os na allwn gynnig y modiwl dewisol yr hoffech, gofynnir i chi ddewis eto.

Mae llawer o'n cyrsiau mathemateg wedi'u hachredu gan Sefydliad Mathemateg a'i Gymwyseddau (yr IMA).

## Gwybodaeth ynghylch modiwlau

Uned astudio mewn cynllun gradd yw modiwl, ac mae ganddo ei ganlyniadau dysgu ei hun. Ceir dolenni cyswllt â manylion modiwlau unigol yma: https://www.aber.ac.uk/cy/modules/.

Rhoddir cod saith digid i bob modiwl yn Aberystwyth. Mae’r cod yn rhoi gwybodaeth bwysig i chi am y modiwl, fel y gwelir yn yr enghraifft isod. Mae’r ddwy llythyren gyntaf yn dynodi’r pwnc (CY Cymraeg); mae’r rhif cyntaf yn dynodi’r lefel: (hynny yw 1,2,3, ac M ar gyfer Meistr); mae’r ddau ddigid olaf yn dynodi gwerth y credydau (10, 20 ac yn y blaen). Mae ‘00’ yn golygu semester cyntaf modiwl tenau a ddysgir dros ddau semester.



## Amserlen Academaidd

Wedi i chi gofrestru, gallwch weld eich amserlen ar-lein bersonol drwy eich cofnod myfyriwr: https://studentrecord.aber.ac.uk/cy/ .

Os oes gennych gwestiynau am eich amserlen unigol, holwch eich adran academaidd yn y lle cyntaf: https://www.aber.ac.uk/cy/timetable/departmental-timetable-officers/

Ceir rhagor o wybodaeth am leoliadau adeiladau academaidd ac ystafelloedd addysgu ar yr amserlen ganolog ar: https://www.aber.ac.uk/cy/timetable/zones/

# Adran D: Asesu ac Adborth

## Blackboard / Adnoddau E-Ddysgu

Bydd tudalennau Blackboard (neu'r 'Bwrdd Du') ar gyfer modiwl yn cynnwys yr aseiniadau a'r deunydd sy'n ategu nodiadau'r darlithoedd. Os oes hen bapurau arholiad, fe fyddant i'w gweld yno, ac mae llawer o'r darlithwyr yn cynnwys dolenni cyswllt â recordiadau neu glipiau o ddarlithoedd.

Dyma’r ddolen i Blackboard: https://blackboard.aber.ac.uk

## Dulliau Asesu

Mae modiwlau'n cael eu hasesu drwy gyfuniad o arholiadau ysgrifenedig ac arholiadau ymarferol o hyd penodol, gwaith cwrs ac adroddiadau. Mae gwahanol ganrannau'r elfennau hyn a ddefnyddir ym mhob modiwl wedi'u rhestr ar y Gronfa Ddata o Fodiwlau: gweler https://www.aber.ac.uk/cy/modules/deptcurrent/?d=Mathematics.

Asesu ffurfiannol yw llawer o'r asesu a wneir yn ystod y cwrs, lle mae'r myfyrwyr yn cael cyfleoedd i ymarfer a datblygu eu dealltwriaeth o bwnc heb fod pwysau'n cael eu rhoi arnynt i gael marciau ar gyfer y modiwl. Mae'r wybodaeth yn datblygu yn ystod y modiwl, ac fe'i profir yn yr arholiad terfynol. Mae hyn yn enwedig o briodol i fodiwlau sy'n cynnwys llawer o gysyniadau haniaethol. I fodiwlau sy'n fwy ymarferol, defnyddir dulliau crynodol lle mae'r marc terfynol yn crynhoi'r arholiad ysgrifenedig a'r gwaith cwrs

a asesir (sy'n ymdrin ag elfennau sy'n llai addas i arholiad: defnyddio meddalwedd gyfrifiadurol, er enghraifft).

**Fformat y Papurau Arholiad**


Bydd dwy ran i bob arholiad ysgrifenedig dwyawr, sef A a B. Ni fydd cwestiynau rhan A yn gymhleth, y nod yma fydd rhoi cyfle i fyfyrwyr ddangos eu gwybodaeth am y pwnc. Bydd cwestiynau rhan B yn fwy heriol eu natur na'r rhai yn adran A, ac fe fyddant yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddangos dealltwriaeth dda am y pwnc a'u medrusrwydd wrth roi'r ddamcaniaeth gyffredinol ar waith mewn sefyllfaoedd penodol. Bydd y cwestiynau ym mhob rhan yn cael eu rhannu'n gyfartal ar draws y maes llafur. Dangosir cyfanswm y marciau sydd ar gael i bob cwestiwn, neu ran sylweddol o'r cwestiwn, ar y papur arholiad.

**Defnyddio Cyfrifianellau**

Ar y papurau hyn lle y caniateir defnyddio cyfrifiannell, fe fydd y cyfarwyddyd isod:

*DIM OND cyfrifianellau Casio FX-83 neu FX-85 y cewch eu defnyddio.*

## Cyflwyno Gwaith Cwrs a Dyddiadau Cau



Mae dyddiadau cau gwaith ysgrifenedig yn fater y mae’r Brifysgol yn ei gymryd o ddifrif. Mae’n rhaid i’r myfyrwyr reoli eu hamser mewn modd cyfrifol er mwyn gallu cyflwyno’u gwaith yn brydlon. Rhaid cyflwyno gwaith cwrs i’r adran yn unol â’r gofynion adrannol unigol a’r dyddiadau cau a gyhoeddwyd ganddi. Bydd gwaith a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn cael marc sero.

Oni cheir cyfarwyddyd i’r gwrthwyneb, dylid cyflwyno pob gwaith cwrs yn electronig os yw yn seiliedig ar destun ac ar brosesydd geiriau.

Bydd y cyfan, bron, o'r aseiniadau ym Mathemateg y tu allan i'r canllawiau uchod, gan y byddant yn gofyn am hafaliadau a ffigurau mathemategol eraill. Bydd cydlynwyr y modiwlau unigol yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch sut a phryd y dylid cyflwyno gwaith.

## Absenoldeb o Arholiadau

Bernir bod ymgeisydd yn absennol am reswm da o arholiad neu asesiad os cyflwynir dogfennaeth i gadarnhau salwch, damwain, profedigaeth agos neu amgylchiadau tosturiol sy’n ymwneud yn agos â’r ymgeisydd. Bydd gan y Bwrdd Arholi perthnasol ddisgresiwn i benderfynu a oedd ymgeisydd yn absennol am reswm da, a hynny ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd. Bydd ymgeisydd a fu’n absennol o unrhyw arholiad yn y Brifysgol heb reswm da neu a fethodd â chyflawni mathau eraill o asesiadau erbyn y dyddiad angenrheidiol yn cael marc sero am yr asesiad dan sylw.

## Ceisiadau am Estyniad

Os oes rheswm anorfod sy’n golygu na ellir cyflwyno gwaith cwrs mewn pryd, mae’n rhaid i fyfyrwyr gyflwyno cais am estyniad trwy gwblhau’r Ffurflen Gais am Estyniad i Ddyddiad Cyflwyno Gwaith Cwrs. Dylid gofyn i’ch adran academaidd am gopi o’r ffurflen: mae’n rhoi cyfarwyddiadau manwl ar yr amgylchiadau lle y bydd posibilrwydd o ganiatau estyniadau, hyd yr estyniadau, a beth i’w wneud os nad oes modd caniatáu estyniad neu os gwrthodir y cais.

Dylid cyflwyno unrhyw gais am estyniad i'r Tiwtor Blwyddyn perthnasol gyda chopi i Swyddfa Gyffredinol yr Adran Mathemateg (maths@aber.ac.uk) .

https://www.aber.ac.uk/cy/maths/supporting-you/

## Amgylchiadau Arbennig

Nod y Brifysgol yw asesu ei myfyrwyr i gyd mewn modd cadarn ond teg, yn unol â'i rheoliadau a'i gweithdrefnau cymeradwy. Er hynny, mae'n dibynnu ar ei myfyrwyr i roi gwybod iddi am unrhyw amgylchiadau arbennig a allai effeithio ar eu perfformiad, fel y gall sicrhau bod ei holl fyfyrwyr yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg. Dyma rai enghreifftiau o Amgylchiadau Arbennig (dim ond enghreifftiau yw'r rhain, nid rhestr gyflawn mohoni): salwch tymor hir neu dymor byr, problemau ariannol difrifol, problemau difrifol â'ch llety, profedigaeth neu ryw amgylchiadau personol eraill. Os byddwch am roi gwybod i'r Brifysgol am amgylchiadau arbennig, llenwch bob rhan o’r Ffurflen Amgylchiadau Arbennig a'i hanfon at y bobl berthnasol (https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/stafflist/) ym

mhob adran academaidd lle'r ydych yn astudio modiwlau, ynghyd â chopïau o'r dystiolaeth. Noder ei bod hi’n rhaid i fyfyrwyr hysbysu’r Brifysgol o unrhyw amgylchiadau personol eithriadol a allai effeithio ar eu perfformiad academaidd cyn gynted ag sy’n bosib ac ym mhob achos cyn i’r Byrddau Arholi gyfarfod. Ceir cyfarwyddyd pellach yn adran 3.8 o’r Llawlyfr Ansawdd Academaidd:
https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/

## Trefniadau Marcio a Chymedroli

Cynhelir pob arholiad yn unol â gweithdrefn Marcio Anhysbys y Brifysgol a amlinellir yn adran 3.5 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, a bydd ymgeiswyr yn parhau yn anhysbys hyd nes y cynhelir Bwrdd Arholi’r adran. Bryd hynny, derbynnir argymhellion Paneli Amgylchiadau Arbennig yr adran er mwyn ystyried amgylchiadau meddygol neu amgylchiadau arbennig eraill a gyflwynwyd gan y myfyriwr yn unol â Gweithdrefn Amgylchiadau Arbennig y Brifysgol (adran 3.8 yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd). Gweithredir polisi tebyg ar gyfer gwaith cwrs, gyda rhai eithriadau a gymeradwyir gan Athrofeydd lle nad yw trefniadau annhysbys yn ymarferol neu’n ddymunol.

Disgwyliad Cod Ansawdd y DU yw y bydd gan sefydliadau addysg uwch drefniadau tryloyw a theg ar gyfer marcio a chymedroli. Mae angen i’r Brifysgol fod yn sicr bod prosesau cymedroli mewnol sy’n gadarn, effeithiol a chyson yn cael eu gweithredu ym mhob adran academaidd. Mae manylion y prosesau hyn yn debygol o amrywio yn ôl amgylchiadau penodol a gofynion cyrff proffesiynol, ond dylai pob adran academaidd lynu wrth y diffiniadau a’r gofynion sylfaenol a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd wrth weithredu eu prosesau cymedroli mewnol.

## Meini Prawf Marcio

Meini prawf asesu arholiadau ysgrifenedig ac ymarferol nas gwelwyd ymlaen llaw

| | |
|---|---|
| 70%-100% | Yn dangos gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth sicr o'r pwnc. Yn rhoi atebion cyflawn neu bron yn gyflawn i ddetholiad da o gwestiynau. Cyflwynwyd y rhan fwyaf o atebion yn glir a rhesymegol. Dadleuon safonol wedi'u cyflwyno'n gywir. Yn dangos sgil wrth ddefnyddio gwybodaeth i ddatrys problemau. Gwaith cyfrifo yn gadarn yn gyffredinol. |

| | |
|---|---|
| 60%-69% | Yn dangos gwybodaeth dda am y pwnc a dealltwriaeth dda am ran sylweddol o'r pwnc. Yn rhoi atebion da i ddetholiad sylweddol o gwestiynau. Atebion wedi'u cyflwyno'n dda ond efallai fod ychydig o wallau yn yr eglurhad rhesymegol. Dadleuon safonol wedi'u cyflwyno'n gywir. Yn dangos cryn dipyn o allu wrth ddefnyddio gwybodaeth i ddatrys problemau. Ychydig o waith cyfrifo gwallus. |
| 50%-59% | Yn dangos cryn dipyn o wybodaeth ond dealltwriaeth gyfyngedig yn unig am y pwnc. Yn rhoi atebion rhannol i ddetholiad sylweddol o gwestiynau gydag ambell ateb cyflawn. Efallai fod atebion yn ddiffygiol eu rhesymeg. Yn dangos cryn dipyn o allu wrth gyflwyno dadleuon safonol. Yn gwneud ymdrechion i ddefnyddio gwybodaeth i ddatrys problemau, gyda llwyddiant rhannol yn unig. Yn cynnwys nifer sylweddol o enghreifftiau o waith cyfrifo gwallus. |
| 40%-49% | Yn dangos peth gwybodaeth ond ychydig o ddealltwriaeth am y pwnc. Mae'r rhan fwyaf o'r atebion yn dameidiog ac yn ymdrin â chysyniadau a thechnegau sylfaenol y pwnc yn unig. Yn dangos peth gallu wrth gyflwyno dadleuon safonol, ond efallai fod yr eglurhad rhesymegol yn wan. Mae'r ymdrechion i ddefnyddio gwybodaeth i ddatrys problemau yn gyfeiliornus ac aneffeithiol ar y cyfan. Llawer o waith cyfrifo gwallus. |
| 30%-39% | Yn dangos ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth am y pwnc. Mae'r rhan fwyaf o'r atebion yn dameidiog ac yn ymdrin â chysyniadau a thechnegau sylfaenol y pwnc yn unig, a'r rheini yn aml wedi'u camddeall neu eu camddefnyddio. Yn dangos peth gallu wrth gyflwyno dadleuon safonol neu wrth ddatrys problemau o fewn rhan fechan iawn o'r pwnc. Y rhan fwyaf o'r dadleuon safonol wedi'u cyflwyno'n ddryslyd neu'n anghywir. Llawer o waith cyfrifo gwallus. |
| 0%-29% | Yn dangos ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth am y pwnc. Mae'r rhan fwyaf o'r atebion yn dameidiog ac yn ymdrin â chysyniadau a thechnegau sylfaenol y pwnc yn unig, a'r rheini yn aml wedi'u camddeall. Y dadleuon safonol wedi'u cyflwyno'n ddryslyd neu'n anghywir. Yn dangos dim ond ychydig o ymwybyddiaeth o'r materion mathemategol sydd ynghlwm wrth ddatrys problemau. Llawer o waith cyfrifo gwallus. |

Meini prawf asesu adroddiadau ymarferol

| | |
|---|---|
| 70%-100% | Yn disgrifio amcanion y gwaith ymarferol yn glir. Yn dangos sgil wrth ddethol data a thechnegau addas. Yn defnyddio technegau'n fedrus ac effeithiol i gyflawni'r amcanion. Yn dangos gallu sicr wrth ddehongli'r canlyniadau a'u defnyddio i ddod i gasgliadau. Canlyniadau wedi'u cyflwyno'n ardderchog. |
| 60%-69% | Yn rhoi disgrifiad da o amcanion y gwaith ymarferol. Yn dangos cryn sgil wrth ddethol data a thechnegau addas. Yn rhoi technegau ar waith yn eithaf medrus. Yn dangos gallu wrth ddehongli'r canlyniadau a'u defnyddio i ddod i gasgliadau. Canlyniadau wedi'u cyflwyno'n dda. |
| 50%-59% | Yn rhoi disgrifiad rhesymol o amcanion y gwaith ymarferol. Yn dangos peth sgil wrth ddethol data a thechnegau addas. Dim ond yn weddol lwyddiannus wrth ddefnyddio technegau i gyflawni'r amcanion. Yn dangos gallu wrth ddehongli'r canlyniadau a'u defnyddio i ddod i gasgliadau. Y canlyniadau a gafwyd wedi'u cyflwyno'n weddol, ond wedi methu â chwblhau cryn dipyn o'r gwaith. |
| 40%-49% | Yn rhoi disgrifiad gwael o amcanion y gwaith ymarferol. Yn dangos dim ond ychydig o sgil wrth ddethol data a thechnegau addas. Dim ond ychydig o lwyddiant wrth ddefnyddio technegau i gyflawni'r amcanion. Yn dangos gallu cyfyngedig wrth ddehongli'r canlyniadau a'u defnyddio i ddod i gasgliadau. Yn trefnu gweithgareddau'n wael. Yn rhoi cyflwyniad gweddol o'r nifer bychan o ganlyniadau a gafwyd, ond wedi methu â chwblhau rhan sylweddol o'r gwaith. |
| 0%-39% | Yn dangos dim ond ychydig o ddealltwriaeth o amcanion y gwaith ymarferol. Yn dangos nemor ddim sgil wrth ddethol data a thechnegau addas. Yn gweithio mewn modd di-drefn. Yn methu â chael y rhan fwyaf o'r canlyniadau arfaethedig. Yn dangos ychydig neu ddim gallu wrth ddehongli'r canlyniadau a'u defnyddio i ddod i gasgliadau. Y canlyniadau wedi'u cyflwyno'n dameidiog a heb eu cydlynu. |

Meini prawf asesu gwaith cwrs

| | |
|---|---|
| 70%-100% | Ymdriniwyd â bron y cyfan o'r gwaith cwrs, a'r problemau wedi'u datrys yn effeithiol â thechnegau a ddetholwyd yn briodol. Mae'r atebion wedi'u dogfennu'n dda. Mae gwaith wedi'i gyflwyno mewn modd taclus a phriodol. |
| 60%-69% | Methwyd ag ymdrin â rhan fechan o'r gwaith cwrs, ond mae'r problemau yng ngweddill y gwaith wedi'u datrys yn effeithiol â thechnegau a ddetholwyd yn briodol. Mae'r atebion wedi'u dogfennu'n eithaf da. Mae gwaith wedi'i gyflwyno mewn modd taclus a phriodol. |

| | |
|---|---|
| 50%-59% | Methwyd ag ymdrin â rhan sylweddol o'r gwaith cwrs yn synhwyrol, ond wedi gwneud ymdrechion rhesymol i ddatrys y problemau yng ngweddill y gwaith. Yn tueddu i roi technegau ar waith yn aneffeithlon neu i ddethol technegau amhriodol. Mae'r atebion heb eu dogfennu'n dda iawn. Canlyniadau wedi'u cyflwyno'n weddol dda; efallai'n cynnwys data amherthnasol. |
| 40%-49% | Dim ond yn ymdrin â rhan fechan o'r gwaith cwrs yn synhwyrol. Technegau wedi'u dethol yn wael. Yn rhoi technegau ar waith yn aneffeithlon. Mae'r atebion wedi'u dogfennu'n wael a'u cyflwyno'n wael. Yn debygol o gynnwys data amherthnasol. |
| 30%-39% | Dim ond yn ymdrin â rhan fechan o'r gwaith cwrs yn synhwyrol. Dim ond ychydig o ddealltwriaeth o'r technegau sy'n briodol i'r problemau dan sylw. Yn dangos peth gallu wrth ymdrin â rhan fechan o'r pwnc. Ar y cyfan yn rhoi technegau ar waith heb gael effaith. Mae'r atebion wedi'u dogfennu'n wael a'u cyflwyno'n wael. |
| 0%-29% | Yn ymdrin ag ychydig yn unig o'r gwaith cwrs. Dim ond ychydig o ddealltwriaeth o'r technegau sy'n briodol i'r problemau dan sylw. Yn rhoi technegau ar waith heb gael effaith. Mae'r atebion wedi'u dogfennu'n wael a'u cyflwyno'n wael. |

Meini prawf asesu modiwlau prosiect

| **Meini Prawf** | **Marc uchaf** | **0-40%** | **40-50%** | **50-60%** | **60-70%** | **70%-85%** | **85%+** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strwythur a Threfn | 10 | Di-drefn.<br>Dim penawdau na lyfryddiaeth. | Ychydig o strwythur (e.e. penawdau) ond anodd cael pen ffordd. | Digonol o ran strwythur a defnyddio ffigurau, tablau ayyb. | Strwythur clir; ffigurau, tablau ayyb wedi'u defnyddio'n dda. | Deunydd wedi'i drefnu'n glir; ffigurau, tablau ayyb wedi'u defnyddio'n dda. | Cyflwyniad o safon broffesiynol. |
| | | 0-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 9-10 |
| Ansawdd y ddogfennaeth ac ansawdd darllenadwy | 15 | Gramadeg a sillafu eithriadol o wael; anodd ei ddarllen. | Anodd ei ddilyn; llawer o gamdeipio a brawddegau wedi'u llunio'n wael. | Gramadeg a sillafu yn ddigonol; eithaf hawdd ei ddarllen. | Safon dda o sillafu a gramadeg; darllenadwy. | Ychydig o gamdeipio, os o gwbl; brawddegau wedi'u llunio'n ardderchog; darllen yn dda. | Ansawdd cystal â dogfen broffesiynol. Methu â stopio ei ddarllen! |
| | | 0-6 | 6-8 | 8-10 | 10-12 | 12-13 | 14-15 |
| Cynnwys | 35 | Adroddiad byr iawn, heb gywirdeb, dyfnder na dealltwriaeth. | Ambell lygedyn o ddealltwriaeth, ond dadleuon yn brin o fanylion a chywirdeb | Yn ddigon hir, yn gywir ar y cyfan, yn defnyddio enghreifftiau'n briodol, dadansoddiad-au safonol. | Tystiolaeth dda o ddealltwriaeth, offer/dadansoddi adau wedi'u defnyddio'n dda. | Ymwybyddiaeth o'r cyd-destun, dealltwriaeth glir, mathemateg ardderchog. | Gwaith y gellir ei gyhoeddi (gan gynnwys erthyglau adolygu). |
| | | 0-14 | 14-18 | 18-21 | 21-25 | 25-30 | 30-35 |
| Testunau/ ffynonellau | 10 | Ychydig neu ddim ffynonellau; heb dystiolaeth o unrhyw beth nad oedd yr arolygwr wedi'i awgrymu. | Ystod o ffynonellau, ond allan o'r cyd-destun yn aml. | Ystod resymol o destunau, heb gael eu rhoi yn y cyd-destun bob amser. | Testunau cyd-destunol wedi'u defnyddio'n dda wrth gyfiawnhau dadleuon. | Wedi dod o hyd i ffynonellau sy'n uniongyrchol berthnasol i'r prosiect, ac yn deall eu | Wedi dod o hyd i ffynonellau newydd, perthnasol iawn, ac amrywiol eu natur. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | perthnasedd yn glir. | |
| | | 0-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 9-10 |
| Gwreiddiold eb | 10 | Ychydig neu ddim tystiolaeth o ddim byd heblaw canlyniadau safonol. | Rhywfaint o ymdrechion i ehangu ar ganlyniadau safonol. | Cyffredinoli'n syml ar ganlyniadau / enghreifftiau safonol. Datblygu meddalwedd yn syml. | Awgrymiadau am syniadau newydd, enghreifftiau newydd, a/neu feddalwedd. | Datblygu syniadau ac algorithmau newydd yn fedrus. | Modelu arloesol ac ymchwil gwreiddiol. |
| | | 0-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 9-10 |
| Cynnydd (Arolygwr yn unig) | 10 | Ychydig neu ddim cynnydd. Dim adroddiad interim. | Ychydig neu ddim menter, a'r cynnydd yn dibynnu'n llwyr ar gyfraniad yr arolygwr. | Peth menter, ymdrechion i ddefnyddio meddalwedd a datblygu ei syniadau ei hun, ond angen cymorth. | Awgrymiadau gan y myfyriwr, defnyddiwyd meddalwedd yn fedrus, gafael dda ar y syniadau. | Gwaith annibynnol. | Datblygu syniadau a fyddai'n gweddu i brosiect ar lefel ymchwil |
| | | 0-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 9-10 |
| Seminar (Prif bwnc yn unig) | 10 | Absennol / distaw. | Cyflwyniad wedi'i gynllunio'n wael, dewis gwael o ddeunydd; heb allu ateb cwestiynau. | Cyflwyniad digonol wedi'i gynllunio'n briodol. Rhywfaint o ymdrech i ateb cwestiynau. | Cyflwyniad medrus, deunydd priodol, ond wedi straffaglu i ateb cwestiynau. | Deunydd wedi'i ddethol yn dda a chyflwyniad clir; atebwyd y cwestiynau'n dda ar y cyfan. | Cyflwyniad ardderchog a chlir; atebwyd y cwestiynau'n dda. |
| | | 0-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 9-10 |

## Adborth

Gofynion y Brifysgol yw bod adborth ar gyfer gwaith cwrs yn cael ei ddarparu o fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad cyflwyno. Os oes oedi am resymau eithriadol na ellir eu hosgoi, byddwch yn cael eich hysbysu ac yn derbyn amserlen ddiwygiedig ar gyfer dychwelyd yr asesiad o dan sylw.

Mae'r Brifysgol yn arfer yr Egwyddorion Adborth Effeithiol isod o ran gwaith y myfyrwyr:

(i) Dylai'r adborth fod yn dryloyw, er mwyn i'r myfyrwyr allu ei ddeall a'i gysylltu â'r meini prawf asesu.

(ii) Dylai'r adborth helpu'r myfyrwyr i weld beth yw eu cryfderau a ble y mae angen iddynt wella.

(iii) Dylai'r adborth fod yn gymesur ac yn briodol i'r math o asesiad, yr amseru a maint y dosbarth.

(iv) Dylai fod gan y myfyrwyr wybodaeth glir a hygyrch am y mathau o asesiadau a natur ac amseriad yr adborth a gânt ar gyfer pob math o asesiad.

(v) Mae gan y myfyrwyr hawl i ofyn am eglurhad ar y marciau, i'w helpu i ddeall yr hyn a wnaethant yn dda a'r hyn na wnaethant cystal, a sut y gallant wella.

Mae staff Mathemateg yn rhoi adborth mewn gwahanol ffyrdd. Marciau a sylwadau ysgrifenedig ar waith a gyflwynwyd yw'r brif ffordd. Maent yn dangos gwaith cywir, ac os nad yw'r ddadl a gynigiwyd yn ddilys, mae'n dangos sut y gellid addasu'r ddadl. Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn astudio'r adborth hwnnw: mae dysgu o'ch camgymeriadau yn ffordd hynod werthfawr o wella. Bydd y staff yn ymdrechu i ddychwelyd gwaith a farciwyd cyn gynted ag y bo'n ymarferol; 15 niwrnod gwaith ar ôl y dyddiad cyflwyno ar y mwyaf (oni bai bod amgylchiadau eithriadol). Mae rhai rhannau o'r darlithoedd wedi'u neilltuo i drafod themâu cyffredin sy'n codi yn yr aseiniadau a gyflwynwyd. Yn y sesiynau tiwtora/ dosbarthiadau problemau/ gweithdai/ sesiynau ymarferol, myfyrwyr yn rhoi cynnig ar ddatrys problemau yw'r elfen bwysicaf; bydd y staff yn rhoi adborth, gan symud tuag at ddatrys y broblem yn gywir. Yn olaf, bydd y Tiwtoriaid Personol yn eu

cyfarfodydd yn awyddus i drafod â'u myfyrwyr sut y gwnaethant yn yr arholiadau; gall y myfyrwyr gael dadansoddiad manwl o'u marciau.

Bydd yr adborth ar fodiwlau prosiect ar gael ar Blackboard; rhoddir y gwaith cwrs wedi'i farcio yn ôl yn ystod y darlithoedd/sesiynau tiwtora, neu yn y cloerau sydd yn y cyntedd ar lawr 3 adeilad Mahtemateg a Ffiseg, neu fe fydd y darlithydd yn rhoi gwybod os bydd adborth yn cael ei ddychwelyd drwy ryw ddull arall.



## Arholwyr Allanol

Mae Arholwyr Allanol yn allweddol o ran helpu i gynnal safonau academaidd a goruchwylio'r broses asesu. Mae'r Brifysgol yn penodi Arholwyr Allanol ar gyfer pob darpariaeth sy'n arwain at ddyfarniad gan Brifysgol Aberystwyth.

Mae Arholwyr Allanol yn sicrhau bod asesiadau wedi eu cynnal mewn modd teg a chyson a bod y safonau'n cyd-fynd â sefydliadau addysg uwch eraill y DU a/neu safonau cyrff proffesiynol perthnasol.  Mae'r Arholwyr Allanol yn cyflawni nifer o dasgau a amlinellir yn adran 5 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, Arholi Allanol: (https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/ext-exam/).  Mae'r rhain yn

cynnwys cymeradwyo asesiadau Arholwyr Mewnol, edrych ar samplau o ddeunydd asesu, edrych ar samplau o waith wedi'i asesu a chymeradwyo argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Arholi.  Mae Arholwyr Allanol hefyd yn darparu adroddiadau ysgrifenedig ar y broses asesu ac ar safonau cyflawniad y myfyrwyr ac fe'u cyhoeddir ar fodiwlau'r adrannau ar Blackboard.  Mae adroddiadau'r Arholwyr Allanol yn cael eu hystyried gan y Brifysgol, ac mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am oruchwylio'r adroddiadau a'r drefn arholwyr allanol yn ei chyfanrwydd.

Cyhoeddir enwau Arholwyr Allanol yn yr adran 'proffiliau staff' ar dudalennau gwe'r adrannau academaidd. Cyhoeddir Adroddiadau Blynyddol yr Arholwyr Allanol, ynghyd ag ymatebion yr adrannau, ar Blackboard, ac y maent ar gael i fyfyrwyr.

Mae'n rhaid i Arholwyr Allanol fod yn ddi-duedd ar bob achlysur, ac nid ydynt yn gwneud addasiadau dewisol i farciau myfyrwyr unigol. Ni ddylai myfyrwyr gysylltu ag Arholwyr Allanol. Dylid gwneud cais am eglurhad o farc amodol mewn aseiniad trwy drefniadau adborth arferol yr adran academaidd, neu trwy weithdrefnau apelio'r Brifysgol os yw marc terfynol y modiwl wedi ei gadarnhau.

## Ymddygiad Academaidd Annerbyniol

Ymddygiad Academaidd Annerbyniol yw cyflawni unrhyw weithred lle gall unigolyn sicrhau mantais na chaniateir iddo ef/iddi hi ei hun neu i rywun arall. Bydd y Rheoliad hwn yn berthnasol, pan ddeellir bod myfyriwr wedi cyflawni Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, beth bynnag fo bwriad y myfyriwr a chanlyniad y weithred, a phan fo'r myfyriwr yn gweithredu ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag unigolyn arall/unigolion eraill. Gellir cynnwys unrhyw weithredoedd yn y diffiniad hwn, boed hwy'n digwydd yn ystod neu mewn perthynas ag arholiad ffurfiol, darn o waith cwrs, cyflwyno tystiolaeth feddygol neu fel arall i Fyrddau Arholi, neu unrhyw fath ar asesiad a wneir wrth ymgeisio am gymhwyster Prifysgol. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y dosbarthiadau canlynol o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol.  Nid yw'r rhain yn gynhwysfawr, a gellir cynnwys achosion eraill o fewn i ddiffiniad cyffredinol Ymddygiad Academaidd Annerbyniol.

- **Llên-ladrad:** Diffinnir llên-ladrad fel defnyddio gwaith rhywun arall a dweud mai eich gwaith eich hun ydyw, boed hynny'n fwriadol neu'n anfwriadol. Mae enghreifftiau o lên-ladrad yn cynnwys:
    - Dyfynnu heb ddefnyddio dyfynodau
    - Copïo gwaith rhywun arall
    - Cyfieithu gwaith rhywun arall heb ei gydnabod
    - Aralleirio neu addasu gwaith rhywun arall heb ei gydnabod yn briodol
    - Defnyddio deunydd wedi'i lawrlwytho oddi ar y rhyngrwyd heb ei gydnabod
    - Defnyddio deunydd a gafwyd o gronfeydd traethodau neu asiantaethau tebyg.
    - Cyflwyno gwaith a gynhyrchwyrd gan Ddeallusrwydd Artiffisial a dweud mai eich gwaith chi eich hun ydyw.
- **Cydgynllwynio:** Mae cydgynllwynio yn digwydd os yw gwaith a wnaed gan neu gydag eraill yn cael ei gyflwyno fel gwaith un person yn unig.

- **Ffugio tystiolaeth neu ddata:** Mae ffugio tystiolaeth neu ddata a/neu ddefnyddio tystiolaeth neu ddata o'r fath mewn gwaith a asesir yn cynnwys gwneud honiadau ffug ynghylch cynnal arbrofion, arsylwadau, cyfweliadau neu fathau eraill ar gasglu a dadansoddi data. Mae ffugio tystiolaeth neu ddata a/neu ddefnyddio tystiolaeth neu ddata hefyd yn cynnwys cyflwyno tystiolaeth ynghylch amgylchiadau arbennig i Fyrddau Arholi neu Baneli Apêl sy'n ffug neu wedi'i ffugio.

- **Ymddygiad Academaidd Annerbyniol dan amodau arholiad ffurfiol:** cyflwyno deunydd anawdurdodedig; copïo gan, neu gyfathrebu ag, unrhyw unigolyn arall; cyfathrebu'n electronig ag unrhyw unigolyn arall; personadu ymgeisydd arholiad neu ganiatáu i rywun eich personadu; cyflwyno sgript arholiad fel eich gwaith eich hun pan fo'r sgript yn cynnwys deunydd a gynhyrchwyd drwy ddulliau anawdurdodedig.

- **Ailgylchu data neu destun**: Ailgylchu data neu destun mewn mwy nag un asesiad, pan fo'r Adran wedi peidio â chaniatáu hynny yn bendant. Dylai myfyrwyr wirio llawlyfrau modiwlau am fanylion pellach

Mae'r Rheoliad llawn ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol ar gael yn rhan B o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/uap/ gyda rhagor o wybodaeth yn adran 3.6 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd: Ymddygiad Academaidd.

Gall canlyniadau penderfyniad bod Ymddygiad Academaidd Annerbyniol fod yn ddifrifol, a gallai hyn effeithio gallu myfyriwr i symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf neu gwblhau gradd. Bydd cosbau yn cael eu pennu ar sail system bwyntiau: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/uap-points

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch arfer academaidd da a chyfeirnodi ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/sgiliauaber/. Os nad ydych yn siŵr, mae'n rhaid i chi gysylltu â'ch adran academaidd i gael rhagor o arweiniad.

Mae canllawiau (cyflwyniadau ar-lein byr) ar agweddau hanfodol ar ymddygiad academaidd a sgiliau astudio effeithiol ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/student-learning-support/effective-study/

Canllaw a Chwis Cyfeirnodi ac Ymwybyddiaeth o Lên-ladrad: https://libguides.aber.ac.uk/referencing

Mae'r Canllaw a Chwis yn ymdrin â'r hyn sy'n cael ei gyfrif yn llên-ladrad, y canlyniadau ar ôl darganfod llên-ladrad, ac eglurhad manwl o'r gwahanol arddulliau cyfeirio a ddefnyddir gan holl adrannau addysgu PA. Yn ddelfrydol, byddai myfyrwyr newydd yn cwblhau'r cwis cyn cyflwyno eu haseiniad cyntaf.

## Ymarfer academaidd a chymorth astudio

### Llyfrgelloedd

Mae dwy lyfrgell sy'n darparu amrywiaeth o fannau astudio hyblyg a chyfrifiaduron ar gyfer grwpiau ac astudiaethau unigol. Mae Llyfrgell Hugh Owen (https://www.aber.ac.uk/cy/is/library-services/hughowen/) ar agor 24 awr y dydd yn ystod y tymor. Mae llyfrau a chasgliadau cyfnodolion ar gyfer y dyniaethau, gwyddorau bywyd, gwyddorau cymdeithasol, addysg, milfeyddgaeth, nyrsio, astudiaethau gwledig a phynciau Cymraeg yn cael eu cadw yma. Mae Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol

(https://www.aber.ac.uk/cy/is/library-services/physicalscience/studyspaces/) yn darparu llyfrau a chyfnodolion i gefnogi pynciau ffiseg, mathemateg a chyfrifiadureg.

Gellir dod o hyd i oriau agor y llyfrgell yma: https://www.aber.ac.uk/cy/is/about/opening-hours/

## Cymorth pwnc

Mae staff ymroddedig y llyfrgell yn cynorthwyo eich dysgu a'ch astudio gyda hyfforddiant sgiliau gwybodaeth, cymorth pwnc-benodol, rhestrau darllen ar-lein, a thrwy eich helpu i adnabod a dod o hyd i ffynonellau gwybodaeth ar gyfer eich aseiniad 1af hyd at draethawd hir eich blwyddyn olaf.

Mae casgliadau o gyfnodolion electronig, cronfeydd data ac e-lyfrau ar gael i chi 24/7 ar y campws ac oddi arno drwy Primo, catalog y llyfrgell: https://primo.aber.ac.uk/discovery/search?vid=44WHELF_ABW:44WHELF_ABW_VU1

Archebwch apwyntiad ar-lein neu wyneb yn wyneb â’ch Llyfrgellydd Pwnc: https://www.aber.ac.uk/cy/is/library-services/librarians/.

Mae cymorth ar gael drwy Teams, sgwrs ar-lein, ebost, ffôn ac wyneb yn wyneb: https://www.aber.ac.uk/cy/is/help/contactus/

## Canllawiau astudio a hyfforddiant sgiliau

Canllawiau Llyfrgell (https://libguides.aber.ac.uk/hafan) - amrywiaeth o ganllawiau astudio ar adnoddau’r Llyfrgell a sgiliau gwybodaeth sy'n cynnwys:

- Dechrau arni yn y llyfrgell
- Canllawiau Llyfrgell ar gyfer fy mhwnc
- Ymwybyddiaeth ynglŷn â Chyfeirnodi a Llên-ladrad
- Hawlfraint
- Cyflogadwyedd
- Darganfod a Rheoli Gwybodaeth ar gyfer eich Traethawd Hir
- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn eich maes pwnc

- Newyddion a'r Cyfryngau
- Primo: defnyddio catalog y llyfrgell
- Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

Mae sesiynau hyfforddi ar-lein, yn ôl eich cyflymder eich hun ac wyneb yn wyneb ar gael i bob myfyriwr, sy'n ymdrin â sgiliau academaidd, gwybodaeth a digidol https://www.aber.ac.uk/cy/is/hyfforddiant/

## Sgiliau ar gyfer Dysgu

Mae SgiliauAber yn adnodd ar-lein helaeth sydd ar gael i holl fyfyrwyr a staff Prifysgol Aberystwyth. Mae'n cynnwys cyngor ac arweiniad ar ystod eang o sgiliau astudio. Trefnir y cyngor mewn adrannau sy'n ymwneud yn agos ag aseiniadau, arholiadau a mathau eraill o asesu. Darperir y wybodaeth ar lefelau cyffredinol a phynciol ac mae'n cynnwys cyngor a deunyddiau a grëwyd yn y brifysgol ac o fannau eraill. Mae'r cyngor yn cynnwys canllawiau ymarferol ar ysgrifennu academaidd, cyfeirnodi, cyflwyniadau, arholiadau ac ystod eang o strategaethau dysgu ac adnoddau astudio. Mae ar gael o brif dudalen Blackboard y Sefydliad, neu'n uniongyrchol o'r tudalennau gwe canlynol: https://www.aber.ac.uk/cy/aberskills/

## Sgiliau Digidol

Mae gan fyfyrwyr fynediad at nifer o adnoddau i'w cefnogi i ddatblygu ystod eang o sgiliau digidol. Mae'r Llyfrgell Sgiliau Digidol (https://www.aber.ac.uk/cy/is/library-services/galluoedd-digidol/datblygueichsgiliaudigidol/llyfrgellsgiliaudigidolmyfyrwyr/) yn cynnwys chwe chasgliad o adnoddau i helpu myfyrwyr i fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg; o feistroli meddalwedd cyfarwydd megis Excel, i ddefnyddio offer digidol ar gyfer lles personol. Mae gan bob myfyriwr fynediad am ddim i LinkedIn Learning (https://www.aber.ac.uk/cy/is/library-services/galluoedd-digidol/linkedin-learning/), llwyfan dysgu ar-lein gyda thros 16,000 o gyrsiau dan arweiniad arbenigwyr, sy'n eu galluogi i ddatblygu ystod o sgiliau, a bydd y Casgliadau Sgiliau Digidol yn LinkedIn Learning (https://www.aber.ac.uk/cy/is/library-services/galluoedd-digidol/datblygueichsgiliaudigidol/casgliadausgiliaudigidollinkedinlearningmyfyrwyr/) yn werthfawr i fyfyrwyr sydd â diddordeb arbennig mewn datblygu eu sgiliau digidol.

Adnodd ar-lein helaeth yw SgiliauAber/AberSkills sydd ar gael i holl fyfyrwyr a staff Prifysgol Aberystwyth. Mae'n cynnwys cyngor ac arweiniad ar amrywiaeth eang o sgiliau astudio. Mae'r cyngor wedi'i drefnu'n adrannau sy'n cysylltu'n agos ag aseiniadau, arholiadau a mathau eraill o asesu. Caiff yr wybodaeth ei darparu ar lefelau cyffredinol a phwnc benodol gan gynnwys cyngor a deunyddiau a grëwyd yn y brifysgol ac mewn mannau eraill. Mae'r cyngor yn cynnwys arweiniad ymarferol ar ysgrifennu academaidd, cyfeiriadu, cyflwyniadau, arholiadau ac amrywiaeth eang o strategaethau dysgu ac adnoddau astudio. Mae modd ei gyrchu o brif dudalen AberLearn Blackboard, neu uniongyrchol drwy'r dolenni hyn:
https://www.aber.ac.uk/cy/sgiliauaber/

**Cymorth Dysgu i Fyfyrwyr**

Mae Cymorth Dysgu i Fyfyrwyr yn darparu amrywiaeth o fodiwlau israddedig, cyrsiau ysgrifennu a sgiliau gwybodaeth am ddim i israddedigion ac ôl-raddedigion, ac ymgynghoriadau un-i-un ar gyfer ysgrifennu a chefnogaeth ieithyddol. Mae'r rhain ar gael i holl fyfyrwyr y Brifysgol sy'n astudio ar gyrsiau gradd. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/student-learning-support/.

## Y Ganolfan Saesneg Ryngwladol

Mae'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol yn cynnig cyrsiau drwy gydol y flwyddyn ar gyfer mynediad prifysgol (Tystysgrif Sylfaen Ryngwladol a Chyn-sesiynol). Mae hefyd yn cynnig cyrsiau Saesneg cyffredinol a chyrsiau pwrpasol ar gyfer grwpiau myfyrwyr penodol. Yn ogystal, mae'n darparu modiwlau israddedig mewn Dysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (TESOL, neu TEFL). Gall myfyrwyr rhyngwladol presennol nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf ofyn am apwyntiadau un i un ar gyfer datblygu iaith ac ysgrifennu.
Mae rhagor o fanylion ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/en/international-english/

# Adran E: Rheolau Cynnydd a Chonfensiynau Arholiadau

## Rheolau Cynnydd a Chonfensiynau Arholiadau

Defnyddir Confensiynau Arholiadau i bennu a gaiff myfyrwyr symud ymlaen rhwng blynyddoedd astudio ar gyfer gwahanol fathau o ddyfarniadau ac i bennu dosbarth y radd ar ddiwedd cynllun gradd. Dylid darllen y Confensiynau ar y cyd â'r Rheoliad Academaidd ynghylch Cynnydd Academaidd. Gellir dod o hyd iddynt yn adran 4 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/exam-conventions/

Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch asesiad cynlluniau astudio trwy gwrs, megis amgylchiadau arbennig, arholiadau a'r prosesau marcio.

Gall y Brifysgol ddyfarnu un o'r dyfarniadau ymadael canlynol os yw myfyrwyr heb lwyddo i gael y credydau sy'n ofynnol ar gyfer dyfarnu gradd Baglor gydag anrhydedd. Dyfernir y cymwysterau ymadael hyn heb ddosbarth.

- Y Radd Gyffredin (BA / BSc heb anrhydedd)

- Diploma Addysg Uwch (Dip HE)

- Tystysgrif Addysg Uwch (Cert HE)

Ceir gwybodaeth ychwanegol am ddyfarniad Graddau Cyffredin yn adran 4.6 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

## Beth i'w wneud os aiff pethau o chwith

## Ailsefyll

Os ydych yn methu modiwl ac angen ailsefyll, bydd eich adran academaidd yn rhoi gwybod pa elfennau y bydd yn rhaid i chi eu hailsefyll. Fodd bynnag, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r gofynion ailsefyll felly dylech gysylltu â'ch adran i sicrhau bod gennych yr wybodaeth angenrheidiol.

Byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig ar gyfer ailsefyll. Ceir gwybodaeth bellach ynglŷn â chofrestru i ailsefyll gan y Gofrestrfa Academaidd: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/

https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/resits/summer-resit-assessments/

Ceir manylion ynglŷn â ffurff asesiadau ailsefyll yn y bas data modiwlau: http://www.aber.ac.uk/cy/modules/. Fel arfer, bydd ailsefyll yn golygu ailwneud yr asesiadau (e.e. traethawd, arholiad) a fethwyd ar yr ymgais gyntaf, fodd bynnag nid yw hyn yn wir bob tro. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'ch gofynion ailsefyll trwy ofyn i'ch adran academaidd os ydych chi'n ansicr.

Ceir hyd i'r dyddiadau ar gyfer y cyfnodau asesu ar https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/

## Trefn Apeliadau Academaidd i Israddedigion ac Uwchraddedigion a Ddysgir trwy Gwrs

Diffinnir apêl academaidd fel 'cais i adolygu penderfyniad corff academaidd sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn â chynnydd myfyrwyr, asesiadau a dyfarniadau.'

Rhaid i'r apêl fod yn seiliedig ar un neu ragor o'r rhesymau isod er mwyn cael ei hystyried a rhaid darparu tystiolaeth ategol nad oedd ar gael i'w chyflwyno i'r Bwrdd Arholi perthnasol:

- Amgylchiadau esgusodol eithriadol a gafodd effaith andwyol ar berfformiad academaidd y myfyriwr. Lle gallai'r myfyriwr fod wedi rhoi gwybod i'r Bwrdd Arholi am yr amgylchiadau eithriadol cyn iddo gwrdd, ni cheir cyflwyno'r amgylchiadau hynny'n sail dros apelio yn ddiweddarach.
- Diffygion neu afreolaidd-dra yn y ffordd y cynhaliwyd yr asesiadau, neu'r cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu'r cyngor yn eu cylch, lle gellir cyflwyno achos i ddangos y gallai diffygion, afreolaidd-dra neu gyngor o'r fath fod wedi cael effaith andwyol ar berfformiad y myfyriwr.

- Tystiolaeth o ragfarn, neu o duedd, neu o asesu annigonol gan un neu ragor o’r arholwyr.

Ni chaiff yr apêl ei hystyried oni all y myfyriwr ddarparu rhesymau da pam na roddwyd gwybod i’r Brifysgol yn gynt am y rhesymau dros apelio a/neu pam na chafodd y Bwrdd Arholi perthnasol wybod amdanynt.

Ni ystyrir apeliadau sy’n amau barn academaidd.

Cyn gwneud apêl, rhaid i chi ddarllen, yn ei chyfanrwydd, y Drefn Apeliadau Academaidd i Israddedigion ac Uwchraddedigion a Ddysgir drwy Gwrs, sydd ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/appeals/ .

Holwch y Gofrestrfa Academaidd (caostaff@aber.ac.uk) neu Gynghorydd Myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr (undeb.cyngor@aber.ac.uk) am gyngor ynglŷn â’r weithdrefn hon.

### Y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwymedig i sicrhau profiad addysgol o ansawdd uchel i’w holl fyfyrwyr, a hynny gyda chefnogaeth gwasanaethau a chyfleusterau academaidd, gweinyddol a lles priodol. Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron pan fydd myfyrwyr yn anfodlon ar y gwasanaethau neu’r cyfleusterau dysgu ac addysgu a ddarperir. Cred Prifysgol Aberystwyth y dylai myfyrwyr fod â hawl i gael system effeithiol ar gyfer delio â chŵynion ac y dylent deimlo y gallant wneud cwyn, yn sicr eu meddyliau y bydd ymchwiliad teg i’r gŵyn honno. Mae Trefn Gwyno Myfyrwyr y Brifysgol ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/complaints/

## Adran F: Cymorth Myfyrwyr a Gwasanaethau Lles

### Canolfan Croesawu Myfyrwyr

Mae’r Ganolfan Croesawu Myfyrwyr yn siop un stop ar gyfer cyngor a gwybodaeth ar bob math o gymorth. Ein Desg Groesawu yw eich man galw cyntaf am ymholiadau cyffredinol ynghylch y gwasanaethau hyn.

Ceir rhagor o wybodaeth yma: https://www.aber.ac.uk/cy/student-support/our-services/

## Y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian

Mae’r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian yn darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth ac atgyfeirio ar amrywiaeth eang o faterion. Os nad ydych chi’n siŵr ble i fynd am gyngor neu gymorth cysylltwch â ni. Does dim problem yn rhy fawr nac yn rhy fach. Mae ein gwasanaeth yn gyfrinachol, heb feirniadaeth, ac am ddim. Mae gennym wasanaeth galw heibio yn ystod yr wythnos (manylion ar y wefan) neu gallwch drefnu apwyntiad gydag Ymgynghorydd Myfyrwyr drwy gysylltu â’r Ddesg Croesawu Myfyrwyr.

Mae’r ymgynghorwyr myfyrwyr wedi’u hachredu gyda Chymdeithas Genedlaethol yr Ymgynghorwyr Arian Myfyrwyr (NASMA) ac maen nhw’n gallu cynnig cyngor proffesiynol ar reoli arian neu unrhyw broblemau gyda Chyllid Myfyrwyr. Hefyd gallan nhw gynnig cyngor ac arweiniad ar unrhyw ymholiadau’n ymwneud â llety, cynnydd academaidd, gweithdrefnau’r Brifysgol neu gymhwyster ar gyfer cronfeydd caledi.

## Y Gwasanaeth Hygyrchedd

Mae’r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr anabl a’r rheini sydd ag anawsterau dysgu penodol, gan eu hystyried ar yr un sail academaidd ag ymgeiswyr eraill. Rydym ni’n eich cynghori i ystyried, cyn ymgeisio, y gofynion ar gyfer eich dewis o gwrs, gan nodi unrhyw elfennau a allai beri anhawster penodol. Rydym ni’n argymell eich bod yn ymweld â champws y Brifysgol a’ch dewis adran i holi am y cymorth a allai fod ar gael, gweld y cyfleusterau a thrafod anghenion penodol.

Mae ein Hymgynghorwyr Hygyrchedd yn hapus i helpu cyn i chi ymgeisio. Mae’n bwysig eich bod yn cysylltu â’ch adran a’n hymgynghorwyr cyn gynted â phosib gan y gallai gymryd peth amser i drefnu addasiadau a chymorth. Rydym ni hefyd yn argymell eich bod yn cysylltu â’n Hymgynghorwyr Hygyrchedd i drafod asesiad o anghenion astudio a chael cyngor ar grantiau, fel y Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA). Gall ein hymgynghorwyr drefnu gweithwyr cymorth, gan gynnwys er enghraifft cymorth sgiliau astudio un i un a mentora. Gall trefniadau arholi unigol fod ar gael i fyfyrwyr sydd ag amrywiaeth o anawsterau gan gynnwys gwahaniaethau dysgu penodol fel dyslecsia a dyspracsia.

Mae ein Gwasanaeth Hygyrchedd hefyd yn cynorthwyo'r rhai sy'n gadael gofal a gall drefnu cymorth gan fentoriaid cymheiriaid i fyfyrwyr sy'n ei chael yn heriol i ymgartrefu yn y Brifysgol.

## Gwasanaethau Lles Myfyrwyr

Mae'r Gwasanaeth Lles Myfyrwyr yn cynnig cyngor ac arweiniad ar amrywiaeth o faterion iechyd, gan gynnwys lles emosiynol a rhywiol, ac mae'n cynnwys cymorth ar gyfer iechyd meddwl a darpariaeth cwnsela. Mae'r Gwasanaeth Lles Myfyrwyr yn ychwanegol i'ch meddyg teulu, ac nid yn lle'r gwasanaeth hwnnw. Er ein bod yn gweithio'n agos gyda meddygon teulu lleol a'r gwasanaethau ysbyty i sicrhau eich bod yn cael gofal da a sylw pan fo angen, mae'n bwysig eich bod yn cofrestru gyda phractis meddyg teulu lleol pan fyddwch yn cyrraedd Aberystwyth.

Yn ogystal â'r gwasanaethau sydd wedi eu lleoli yn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr, mae cymorth hefyd ar gael trwy'r canlynol:

GIG 111 Cymru: https://111.wales.nhs.uk/contactus/

MIND Aberystwyth: https://mindaberystwyth.org/

Llinell Gymorth Iechyd Meddwl ar gyfer Cymru:
https://www.callhelpline.org.uk/indexW.php

Samariaid Cymru: https://www.samaritans.org/england-cy/samaritans-cymru/

PAPYRUS: https://www.papyrus-uk.org/

## Y Swyddfa Denu Myfyrwyr a Datblygu Rhyngwladol

Mae'r Swyddfa Ryngwladol yn cynnig amrywiaeth cynhwysfawr o wasanaethau i fyfyrwyr rhyngwladol o drefnu digwyddiadau croesawu i gyngor arbenigol ar fewnfudo. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein tudalennau rhyngwladol https://www.aber.ac.uk/en/international/.

## Cyngor ar Fisas a Mewnfudo

Gall ein Hymgynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol helpu gyda phob math o geisiadau am fisas astudio, fisas Schengen i'r rheini sy'n teithio i Ewrop yn ogystal â darparu gwybodaeth a chyngor ar faterion mewnfudo eraill. Cysylltwch â immigrationadvice@aber.ac.uk

## Wythnos Un Byd

Digwyddiad blynyddol ym Mhrifysgol Aberystwyth yw Wythnos Un Byd sy'n dathlu diwylliant amrywiol ein prifysgol. Mae dathliadau blaenorol wedi cynnwys Noswaith Gala Un Byd, gyda dawnsio a cherddoriaeth draddodiadol, trafodaethau gwleidyddol, prynhawniau ffilm rhyngwladol a Ffair y Byd gyda samplau bwyd a diod o wledydd y myfyrwyr, a bwydlenni traddodiadol a weinir ym mwyty'r Brifysgol, Tamed Da. Digwyddiad dan arweiniad y myfyrwyr yw hwn mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr ac mae angen eich cyfraniad chi! Cynhelir cyfarfodydd i drefnu Wythnos Un Byd o fis Hydref ymlaen felly dewch i ymuno a gwneud yn siŵr fod pawb yn cael rhannu eich gwlad a'ch diwylliant.

## Darpariaeth Halal

Mae ein sefydliadau arlwyo'n cynnig detholiad o fwydydd poeth ac oer sy'n addas ar gyfer diet Halal. Mae'r holl fwyd wedi'i farcio er hwylustod.

## Mannau aml-ffydd ac ystafell weddïo

Mae man ffydd ar gael i weddïo ar Gampws Penglais, yn y Ganolfan Ffydd yng Nghanolfan y Celfyddydau.

## Gwasanaeth Cyngor Undeb y Myfyrwyr

Yng Ngwasanaeth Cyngor Undeb y Myfyrwyr ceir cyngor cyfrinachol, annibynnol am ddim i holl fyfyrwyr Aberystwyth. Mae Ymgynghorwyr Undeb y Myfyrwyr yn staff sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n gallu eich helpu gydag amrywiaeth o faterion gan arbenigo mewn darparu cyngor a chymorth ar brosesau a gweithdrefnau'r Brifysgol. Gall

Ymgynghorwyr Undeb y Myfyrwyr hefyd weithredu fel eiriolwr annibynnol ar eich rhan mewn cyfarfodydd a gwrandawiadau.

Gallwch alw heibio i siarad ag Ymgynghorydd - holwch yn nerbynfa Undeb y Myfyrwyr neu ewch at y swyddfeydd cefn ar y llawr gwaelod neu gallwch gysylltu â ni ar-lein neu drwy ebost: undeb.cyngor@aber.ac.uk . Edrychwch ar https://www.umaber.co.uk/cyngor/ am ragor o fanylion.

## Cymorth Llety

Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau yn eich ystafell neu fflat, e.e. rydych wedi cloi'ch hun allan, nid ydych yn teimlo'n dda, mae angen atgyweirio rhywbeth, neu fod gennych broblem â chymydog, mae gennym staff ar gael 24 awr y dydd i'ch helpu. Mae'r Tîm Preswylfeydd yn gyfrifol am yr holl Breswylfeydd, gallwch gysylltu hefyd â'n porthorion cyfeillgar y tu allan i'r oriau swyddfa. Am fwy o wybodaeth, gweler: https://www.aber.ac.uk/cy/accommodation/current-students/living-residences/help/

## Cynorthwywyr Preswyl

Mae'ch Cynorthwyydd Preswyl yn gyd-fyfyrwyr sydd yma i roi cymorth ac arweiniad, gan anelu at greu amgylchedd byw a dysgu cadarnhaol ac i feithrin ymdeimlad o gymuned ar draws y Brifysgol. Gall hyn gynnwys cyngor ar ddatrys dadleuon fflatiau, ar sut i guro straen arholiadau, gwybodaeth am ddigwyddiadau, gweithgareddau a digwyddiadau yn yr ardal, neu ble i ddod o hyd i'r cwpan gorau o goffi yn Aber! Os nad ydynt yn gallu helpu, byddant yn eich cyfeirio at rywun sy'n gallu bod o gymorth.

Trwy gydol y flwyddyn, bydd eich tîm Cynorthwywyr Preswyl yn trefnu digwyddiadau preswyl bach yn y mannau cymunedol o amgylch eich llety, yn rhoi'r cyfle i chi gwrdd â phobl newydd ac efallai roi cynnig ag rywbeth newydd. Byddant yn galw i mewn i'ch fflat neu dŷ yn rheolaidd i weld eich bod yn iawn, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar yr holl ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n digwydd o amgylch y campws ac yn eich llety, a holi a oes gennych unrhyw bryderon lle y gallant helpu.

Ceir rhagor o wybodaeth yma: https://www.aber.ac.uk/cy/accommodation/current-students/living-residences/res-support/

# Adran G: Gwybodaeth y Brifysgol

**Israddedigion**

Mae gwybodaeth gynhwysfawr i fyfyrwyr israddedig ar gael yma:
https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/ ac mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth ynghylch Arholiadau ac Asesiadau
- Gwybodaeth ynghylch Ailsefyll a Ffioedd Ailsefyll
- Gwybodaeth ynghylch Cofrestru
- Cymorth Ariannol
- Rheolau a Rheoliadau
- Llawlyfr Ansawdd Academaidd

**Mwynhewch eich amser yn Aber a phob hwyl i chi gyda'ch astudiaethau!**